

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
RHEOLIADAU CASGLU O DŶ I DŶ 1947

TEITL A CHWMPAS

1. (1) Gellir cyfeirio at y rheoliadau hyn fel Rheoliadau Casglu o Dŷ i Dŷ 1947, a byddant yn dod yn weithredol ar y nawfed diwrnod ar hugain o Ragfyr, 1947.
(2) Ni fydd y rheoliadau hyn yn ymestyn i'r Alban

DEHONGLIAD

2. (1) Yn y rheoliadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, - mae'r "Ddeddf" yn golygu Deddf Casglu o Dŷ i Dŷ 1939; mae'r "Prif Hyrwyddwr", mewn perthynas â chasgliad, yn golygu person y rhoddyd trwydded iddo yn ei awdurdodi i hyrwyddo'r casgliad hwnnw neu y gwnaed gorchymyn mewn perthynas ag ef yn cyfarwyddo y bydd wedi'i eithrio o ddarpariaethau isadran (2) neu Adran 1 o'r Ddeddf mewn perthynas â'r casgliad hwnnw;

Mae "Blwch Casglu", yn golygu blwch neu gynhwysydd arall ar gyfer cyfraniadau ariannol, sydd wedi'i gau a'i selio'n ddiogel fel na ellir ei agor heb dorri'r sêl.

Mae "Trwydded" yn golygu trwydded a roddwyd gan (Awdurdod Trwyddedu) dan Adran 2 o'r Ddeddf.

Mae "Gorchymyn" yn golygu gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 3 o'r Ddeddf.

Mae "Bathodyn Penodedig" yn golygu bathodyn ar y ffurf a nodwyd ym mhedwaredd Atodlen y rheoliadau hyn;

Mae "Tystysgrif Awdurdod Benodedig" yn golygu tystysgrif ar y ffurf a nodwyd yn Nhrydedd Atodlen y rheoliadau hyn.

Mae "Llyfr Derbynebaw" yn golygu llyfr o ffurflenni derbynneb datodadwy wedi'u rhifo'n olynol gyda gwrthdalennau neu ddyblygebau wedi'u rhifo'n gyfatebol;

Mae "Casglu ar y Stryd" yn golygu casglu neu werthu y mae rheoliadau a wnaed dan Adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrioedd, ayyb (Darpariaethau Amrywiol) 1916, yn berthnasol iddo.

- (2) At ddibenion y rheoliadau hyn, ystyrir bod marc wedi'i osod ar flwch casglu os bydd wedi'i osod ar orchudd sydd wedi'i ludo'n ddiogel i'r blwch casglu.
3. Mae Deddf Ddehongli 1889 yn berthnasol i ddehongliad y rheoliadau hyn fel y mae'n berthnasol i ddehongliad Deddf Seneddol.
4. (1) Bydd cais am drwydded ar y ffurf a nodwyd yn Ail Atodlen y rheoliadau hyn, a bydd yn rhoi'r manylion a nodwyd ynddi.
- (2) Gwneir cais am drwydded neu orchymyn heb fod yn hwyrach na diwrnod cyntaf y mis cyn y mis y bwriedir dechrau'r casgliad.

Ar yr amod y gall yr (Awdurdod Trwyddedu) neu, yn ôl y galw, yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu'r cais er na chafodd ei wneud o fewn yr amser a fynnir gan y paragraff hwn os yw'n fodlon bod rhesymau arbennig dros wneud hynny.

CYFRIFOLDEB HYRWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â CHASGLWYR

5. (1) Bydd pob hyrwyddwr casgliad yn arfer pob diwydrwydd priodol:-
- (a) Er mwyn sicrhau bod personau a awdurdodir i weithredu fel casglwyr at ddibenion y casgliad yn bersonau addas a phriodol; ac
- (b) Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar ran personau a awdurdodir felly â darpariaethau'r rheoliadau hyn.

TYSTYSGRIFAU AWDURDOD, BATHODYNNAU, BLYCHAU CASGLU A LLYFRAU DERBYNEBAU

6. (1) Ni fydd unrhyw Hyrwyddwr casgliad yn caniatáu i unrhyw berson weithredu fel casglwr, oni bai ei fod wedi rhoi neu beri ei rhoi i'r person hwnnw –
- (a) tystysgrif awdurdod benodedig wedi'i llenwi'n briodol (ac eithrio mewn perthynas â llofnod y casglwr) ac wedi'i llofnodi gan neu ar ran Prif Hyrwyddwr y casgliad;
- (b) bathodyn penodedig, ar ôl mewnosod ynddo neu atodi iddo arwydd cyffredinol o ddiben y casgliad; ac
- (c) os bydd arian yn cael ei gasglu, blwch casglu neu lyfr derbynebau wedi'i farcio ag arwydd clir o ddiben y casgliad a rhif gwahaniaethol, a bydd yr arwydd a'r rhif yn achos llyfr derbynebau, hefyd wedi'u marcio ar bob derbynneb sydd wedi'i chynnwys ynddo yn ogystal â rhif olynol y dderbynneb.
- (2) Bydd pob Hyrwyddwr casgliad yn arfer pob diwydrwydd priodol er mwyn sicrhau -

- (a) na roddir unrhyw dystysgrif awdurdod benodedig, bathodyn penodedig, blwch casglu neu lyfr derbynebaw, oni bai fod enw a chyfeiriad y casglwr y'u rhoddwyd iddo wedi'u cofnodi mewn rhestr sy'n dangos mewn perthynas ag unrhyw flwch casglu neu lyfr derbynebaw ei rif gwahaniaethol; a
 - (b) bod pob tystysgrif awdurdod benodedig, bathodyn penodedig, blwch casglu neu lyfr derbynebaw a roddir ganddo neu ar ei ran yn cael ei dychwelyd pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau neu pan fydd casglwr am unrhyw reswm arall yn peidio â gweithredu felly.
- (3) Yn achos casgliad y rhoddwyd trwydded mewn perthynas ag ef -
- (a) bydd pob tystysgrif awdurdod benodedig yn cael ei rhoi ar ffurflen a gafwyd gan Lyfrfa Ei Fawrhydi, a cheir pob bathodyn penodedig yn y modd hwnnw; a
 - (b) bydd pob tystysgrif awdurdod benodedig wedi'i dilysu, a bydd yr arwydd cyffredinol ar bob bathodyn penodedig o ddiben y casgliad yn cael ei fewnosod ynddi neu'i atodi iddi, mewn modd a gymeradwyir gan yr (awdurdod Trwyddedu) ar gyfer yr ardal y rhoddwyd y drwydded mewn perthynas â hi.

DYLETSWYDDAU CASGLWYR MEWN PERTHYNAS Â THYSTYSGRIFAU A BATHODYNNAU

7. Bydd pob casglwr yn –

- (a) llofnodi ei enw ar y dystysgrif benodedig a roddwyd iddo ac yn ei dangos ar orchymyn unrhyw Heddwes neu unrhyw breswilydd tŷ y mae'n ymweld ag ef at ddibenion y casgliad;
- (b) llofnodi ei enw ar y bathodyn penodedig a roddwyd iddo ac yn gwisgo'r bathodyn mewn lle amlwg pryd bynnag y bydd wrthi'n casglu; ac yn
- (c) cadw'r fath dystysgrif a bathodyn yn ei feddiant ac yn eu dychwelyd i hyrwyddwr y casgliad os cânt eu hamnewid neu pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau neu ar unrhyw adeg arall ar orchymyn hyrwyddwr y casgliad.

TERFYN OEDRAN

8. Ni fydd unrhyw berson dan 16 oed yn gweithredu neu'n cael ei awdurdodi i weithredu fel casglwr arian.

TAER-ERFYN

9. Ni fydd unrhyw gasglwr yn taer-erfyn ar unrhyw berson gan achosi annifyrrwch i'r fath berson, neu'n aros yn, neu wrth ddrws, unrhyw dŷ os bydd unrhyw breswlydd ynddo yn gofyn iddo adael.

CASGLU ARIAN

- 10.(1) Pan fydd casglwr yn casglu arian drwy ddull blwch casglu, ni fydd yn derbyn unrhyw gyfraniad ond drwy adael i'r person y'i derbynnir oddi wrtho ei roi mewn blwch casglu a roddwyd iddo gan hyrwyddwr y casgliad.

(2) Pan fydd casglwr yn casglu arian drwy ddulliau ar wahân i flwch casglu, bydd, wrth dderbyn cyfraniad oddi wrth unrhyw berson, ar unwaith ac ym mhresenoldeb y fath berson yn cofnodi ar ffurflen dderbynneb mewn llyfr derbynebaw a roddwyd iddo gan hyrwyddwr y casgliad ac ar yr wrthddalen neu ddyblygeb gyfatebol y dyddiad, enw'r cyfrannwr a'r swm a gyfrannwyd, a bydd yn llofnodi'r ffurflen dderbynneb, a bydd y cofnodion a'r llofnod mewn inc neu bensel annileadwy, a bydd yn rhoi'r ffurflen dderbynneb i'r person y derbyniodd y cyfraniad oddi wrth y person.

DYLETSWYDD CASGLWYR I DDYCHWELYD BLYCHAU A LLYFRAU

11. Bydd pob casglwr y rhoddwyd blwch casglu neu lyfr derbynebaw iddo, yn –
- (a) pan fydd y blwch casglu'n llawn neu'r llyfr derbynebaw wedi'i ddisbyddu, neu
 - (b) ar orchymyn hyrwyddwr y casgliad, neu
 - (c) pan na fydd yn dymuno gweithredu fel casglwr, neu
 - (ch) pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau,

dychwelyd i hyrwyddwr y casgliad y blwch casglu hwnnw â'r sêl heb ei thorri neu'r llyfr derbynebaw hwnnw ynghyd â swm sy'n gyfartal â chyfanswm y cyfraniadau (os oes yna gyfraniadau) a gofnodwyd ynddo.

ARCHWILIO BLYCHAU A LLYFRAU

- 12.(1) Yn amodol ar yr hyn a ragamodir ym mharagraff (2) y rheoliad hwn, bydd blwch casglu pan gaiff ei ddychwelyd yn cael ei archwilio gan, ac os yw'n cynnwys arian, ac yn cael ei agor ym mhresenoldeb, hyrwyddwr y casgliad a pherson cyfrifol arall.
- (2) Pan fydd blwch casglu yn cael ei ddychwelyd heb ei agor i fanc, gall swyddog y banc ei archwilio a'i agor yn absenoldeb hyrwyddwr y casgliad.
- (3) Cyn gynted ag y bydd blwch casglu wedi'i agor, bydd y cynnwys yn cael ei gyfrif a bydd y swm yn cael ei gofnodi ynghyd â rhif gwahaniaethol

y blwch casglu mewn rhestr, a fydd yn cael ei hardystio gan y personau sy'n gwneud yr archwiliad.

(4) Bydd pob llyfr derbynebaw pan fydd yn cael ei ddychwelyd a'r holl symiau a dderbynnir gydag ef yn cael eu harchwilio gan hyrwyddwr y casgliad a pherson cyfrifol arall, a bydd swm y cyfraniad a gofnodwyd yn y llyfr derbynebaw yn cael ei wirio ynghyd â'r arian ac yn cael ei gofnodi ynghyd â rhif gwahaniaethol y llyfr derbynebaw mewn rhestr, a fydd yn cael ei hardystio gan y person sy'n gwneud yr archwiliad.

DARPARIAETH AR GYFER CASGLIADAU AMLENNI

13.(1) Lle bo hyrwyddwr casgliad y caniatawyd gorchymyn iddo yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn dymuno hyrwyddo casgliad amlenni, a bod yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y casgliad at ddiben elusennol sydd o bwys mawr a'i fod yn cael ei weinyddu mewn ffordd addas, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, os yw'n credu ei fod yn addas, roi caniatâd i hyrwyddo casgliad amlenni.

(2) Pan fydd casgliad amlenni yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliad hwn -
(a) bydd gan bob amlen a ddefnyddir fflap gludiog sy'n caniatáu iddi gael ei chau'n ddiogel.

(b) ni fydd unrhyw gasglwr yn derbyn cyfraniad ac eithrio mewn amlen sydd wedi'i chau felly; a

(c) bydd y rheoliadau hyn yn weithredol yn amodol ar yr addasiadau canlynol:-

- I. ni fydd isbaragraff (c) o baragraff (1) o reoliad 6 yn berthnasol
- II. ni fydd rheoliad 10 yn berthnasol
- III. bydd rheoliad 11 a 12 yn weithredol fel pe bai pob amlen y derbynnir cyfraniad ynddi yn flwch casglu.
- IV. Yn rheoliad 11 ar gyfer y geiriau "â'r sêl heb ei thorri" bydd y geiriau "heb ei hagog" yn cael eu rhoi yno yn eu lle.
- V. Ym mharagraff (3) o reoliad 12 ar gyfer y geiriau "Cyn gynted ag y bydd blwch casglu wedi'i agor" bydd y geiriau "Cyn gynted ag y bydd yr amlen wedi'i hagog" yn cael eu rhoi yno yn eu lle a bydd y geiriau "ynghyd â rhif gwahaniaethol y blwch casglu" yn cael eu hepgor.

(3) Yn y rheoliad hwn mae "casgliad amlenni" yn golygu casgliad a wneir drwy bersonau'n mynd o dŷ i dŷ gan adael amlenni y gellir rhoi arian ynddynt ac y gelwir amdanynt yn ddiweddarach.

HYRWYDDWYR I DDARPARU CYFRIFON

14.(1) Bydd Prif Hyrwyddwr casgliad y rhoddwyd trwydded mewn perthynas ag ef yn darparu cyfrif o'r casgliad i'r (Awdurdod Trwyddedu) y rhoddwyd y drwydded ganddo o fewn un mis i ddiwedd y drwydded.

Ar yr amod bod trwyddedau wedi'u rhoi i'r un person ar gyfer casgliadau a wneir at yr un diben mewn mwy nag un (Ardal Drwyddedu) gellir gwneud cyfrif cyfunedig o'r casgliadau a wnaed ym mhob un neu unrhyw un o'r (ardaloedd trwyddedu) hynny, drwy gytundeb rhwng y Prif Hyrwyddwr a'r (Awdurdodau Trwyddedu) priodol i'r (Awdurdodau Trwyddedu) priodol hynny y cytunir felly'n unig.

(2) Bydd Prif Hyrwyddwr casgliad y gwnaed gorchymyn mewn perthynas ag ef yn darparu cyfrif yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol cyhyd â bod y gorchymyn yn parhau i fod mewn grym, ac os bydd y gorchymyn yn cael ei ddiddymu darperir cyfrif terfynol o fewn tri mis i ddyddiad diddymu'r gorchymyn.

(3) Gall yr (Awdurdod Trwyddedu) neu'r Ysgrifennydd Gwladol ymestyn y cyfnod y mae'n ofynnol darparu cyfrif o fewn iddo i'r awdurdod neu iddo ef, yn ôl y galw, os yw'n fodlon bod rhesymau arbennig dros wneud hynny.

(4) Gall Prif Hyrwyddwr casgliad a wneir mewn cysylltiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol â chasgliad ar y stryd y mae'n ofynnol darparu cyfrif ohono i (Awdurdod Trwyddedu) dan reoliadau a wnaed dan Adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrioedd ayyb. (Darpariaethau Amrywiol), 1916, os yw'r (Awdurdod Trwyddedu) dywededig yn cytuno, gyfuno cyfrifon y casgliad o dŷ i dŷ, cyhyd a'i fod wedi'i wneud mewn cysylltiad â'r casgliad ar y stryd, gyda chyfrifon y casgliad ar y stryd, ac ni fydd yn ofynnol i'r swm sydd wedi'i gynnwys felly yn y cyfrif cyfunedig ffurfio rhan o'r cyfrif y mae'n ofynnol ei ddarparu dan baragraff (1) neu, yn ôl y galw, paragraff (2) o'r rheoliad hwn, felly sut bynnag, yn achos cyfrif a ddarperir dan y paragraff (2) dywededig, bydd y cyfrif yn dangos, yn ogystal â chyfrif mewn perthynas ag arian a dderbyniwyd o gasgliadau o dŷ i dŷ na wnaed mewn cysylltiad â chasgliad ar y stryd, datganiad yn dangos cyfanswm enillion yr holl gasgliadau cyfunedig, cyfanswm y treuliau a'r gweddill a ddefnyddiwyd at ddibenion elusennol.

FFURFLEN AC ARDYSTIO CYFRIFON

15. Bydd y cyfrif a fyddir gan y rheoliad blaenorol –

- (a) Pan fydd arian wedi'i gasglu, yn cael ei ddarparu ar y ffurflen sydd wedi'i hatodi i'r rheoliadau hyn a, phan fydd eiddo wedi'i gasglu a'i werthu, yn cael ei ddarparu ar y ffurflen a nodwyd yn Chweched Atodlen y rheoliadau hyn, ac yn y naill achos neu'r llall yn cael ei ardystio gan Brif Hyrwyddwr y casgliad a pherson cyfrifol annibynnol fel archwilydd; a
- (b) Pan fydd eiddo (ar wahân i arian) wedi'i gasglu a'i roi neu'i ddefnyddio, yn cael ei ddarparu ar y ffurflen a nodwyd yn Seithfed Atodlen y rheoliadau hyn ar gyfer gwerthu eiddo a gasglwyd.

GWARANTU CYFRIFON

16. (1) Bydd pob cyfrif a ddarperir dan baragraff (a) o reoliadau 15 o'r rheoliadau hyn hefyd yn cynnwys tocynnau ar gyfer pob eitem o'r treuliau a'r defnydd o enillion ac, yn achos casglu arian, pob llyfr derbynebaw a ddefnyddiwyd at ddibenion y casgliad a'r rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff (2) o reoliad 6 o'r rheoliadau hyn a'r rhestr y cyfeirir ati yn rheoliad 12 o'r rheoliadau hyn.

(2) Ni fydd paragraff (1) o'r rheoliad hwn yn berthnasol i gyfrif a ardystiwyd gan archwilydd sy'n aelod o gymdeithas cyfrifwyr a oedd wedi'i hymgorffori ar ddyddiad y rheoliadau hyn neu y derbynir am resymau eraill ei bod yn gymwys gan yr Awdurdod y cyflwynir y cyfrif iddo, ond mewn achos o'r fath lle nad yw'r tocynnau, llyfrau derbynebaw a'r rhestrau a grybwyllwyd yn y paragraff (1) dywededig wedi'u cyflwyno gyda chyfrif, bydd y Prif Hyrwyddwr yn sicrhau eu bod ar gael am dri mis ar ôl cyflwyno'r cyfrif a bydd, os yw'r awdurdod y cyflwynwyd yr adroddiad iddo'n mynnu felly ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod hwnnw, yn eu cyflwyno i'r awdurdod hwnnw.

CAEL GWARED Â THYSTYSGRIFAU AWDURDOD NAS DEFNYDDIR, AYYB

17. Bydd Prif Hyrwyddwr casgliad yn arfer pob diwydrwydd priodol er mwyn sicrhau bod tystysgrifau awdurdod penodedig a bathodynau penodedig o bob math a gafwyd ganddo at ddibenion y casgliad yn cael eu difetha pan na fydd eu hangen mwyach mewn cysylltiad â'r casgliad hwnnw neu mewn cysylltiad â chasgliad yn y dyfodol y mae wedi'i awdurdodi i'w hyrwyddo at yr un diben.